Newyddion Ynni Gwynt

Fferm Wynt Ffynnon Oer ger Castell-nedd, De Cymru. Adeiladwyd gan RWE npower renewables yn 2006. Nid yw lluniau'r ffermydd gwynt gweithredol a geir yn y cylchlythyr hwn yn cynrychioli ymddangosiad Fferm Wynt arfaethedig Coedwig Brechfa

Croeso i gylchlythyr Fferm Wynt Gorllewin Coedwig Brechfa

Ym mis Chwefror, mae RWE npower renewables yn lansio'i gyfnod ymgynghori ffurfiol ar gyfer Gorllewin Coedwig Brechfa.

Y Cefndir

Mae RWE npower renewables yn bwriadu codi fferm wynt o'r enw Fferm Wynt Gorllewin Coedwig Brechfa, a all gynhyrchu rhwng 56 ac 84 megawat (MW), yng Nghoedwig Brechfa, Sir Gaerfyrddin. Bydd y gwaith yn cynnwys codi 28 tyrbin gwynt, creu 9.1km o lonydd mynediad newydd ac uwchraddio tua 12.7km o lonydd mynediad sydd yno eisoes. Yn ogystal bydd angen elfennau eraill o'r fferm wynt yn cynnwys is-orsaf ar y safle, darnau o lawr caled, trawsnewidyddion allanol, ceblau tanddaearol ac un mast parhaol i fonitro'r gwynt.

Gan y bydd y fferm wynt yn gallu cynhyrchu dros 50 megawat (MW), y Comisiwn Cynllunio Seilwaith (IPC) fydd yn penderfynu ar y cais cynllunio o dan ddarpariaethau Deddf Cynllunio 2008 (y Ddeddf).

O dan Adran 42 o'r Ddeddf, mae'n ofynnol i ymgeiswyr gynnal ymgynghoriad ar y cynlluniau datblygu cyn gwneud cais. Ymhlith y grwpiau y mae'n rhaid ymgynghori â nhw mae'r awdurdodau lleol, rhestr benodol o gyrff cyhoeddus a chyrff rheoleiddio, a pherchenogion a phobl sydd â buddiant yn y tir y mae'r prosiect yn effeithio arno.

Yn ogystal, mae'n rhaid i RWE npower renewables, sef yr ymgeisydd, ymgynghori â'r gymuned leol o dan Adran 47 o'r Ddeddf. Ym mis Tachwedd 2010, cyhoeddodd RWE npower renewables Ddatganiad ynghylch Ymgynghori â'r Gymuned (SoCC) yn amlinellu'r ffordd y byddwn yn ymgynghori â'r bobl leol ar ein cynlluniau i ddatblygu Fferm Wynt Gorllewin Coedwig Brechfa.

Bydd y cyfnod ymgynghori yn dechrau ar 10 Chwefror ac yn para am 56 o ddiwrnodau. Mae'n rhaid derbyn pob ymateb i'r Ymgynghoriad erbyn 5pm ar 6 Ebrill er mwyn ei ystyried. Mae tîm Gorllewin Coedwig Brechfa'n edrych ymlaen at gwrdd â chi yn ein harddangosfeydd cyhoeddus – mae'r manylion yn y cylchlythyr hwn – ac at drafod ein cynlluniau ar gyfer Gorllewin Coedwig Brechfa.

Caiff y sylwadau a wnaed yn ystod y broses ymgynghori eu cofnodi a'u hystyried yn ofalus gan dîm y prosiect. Caiff adroddiad ei lunio ar yr ymgynghoriad, yn nodi'r sylwadau a'r ymateb a gafwyd ac yn disgrifio sut y deliwyd â'r materion a godwyd. Bydd raid i'r IPC dalu sylw i'r adroddiad ar yr ymgynghoriad wrth ystyried y cais.

Beth rydyn ni'n ymgynghori arno?

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, byddwn yn ymgynghori â phobl leol, defnyddwyr y goedwig ac ymgynghoreion statudol ynghylch prosiect Fferm Wynt Gorllewin Coedwig Brechfa.

O dan y Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2009, mae'n ofynnol i ni ymgynghori ar 'wybodaeth amgylcheddol ragarweiniol'. At ddibenion yr ymgynghoriad hwn, mae'r 'wybodaeth amgylcheddol ragarweiniol' yn golygu Datganiad Amgylcheddol drafft llawn ar gyfer y safle, yn nodi'r holl waith amgylcheddol a wnaed yng Ngorllewin Coedwig Brechfa hyd yma.

Bydd nifer o ddogfennau ar gael i'w hystyried yn ystod y cyfnod ymgynghori:

- Datganiad Amgylcheddol drafft llawn yn nodi canlyniadau'r gwaith o asesu effeithiau tebygol datblygu'r fferm wynt ar yr amgylchedd, yn cynnwys camau lliniaru i leihau unrhyw effeithiau amgylcheddol disgwyliedig
- Crynodeb annhechnegol o'r Datganiad Amgylcheddol drafft – ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg
- Datganiad Cynllunio drafft yn nodi cyd-destun cynllunio'r fferm wynt arfaethedig.

Byddwn yn ceisio barn pobl am y cynllun, yn cynnwys ffyrdd y gellir ei newid neu ei wella. Efallai y bydd pobl yn dymuno awgrymu sut y gellid elwa i'r eithaf ar fanteision y cynllun neu leihau unrhyw effeithiau niweidiol.

Mae'n bwysig deall beth yr ydym yn ymgynghori arno a beth nad ydym yn ymgynghori arno. Mae'r tabl isod yn rhoi enghreifftiau o'r pynciau:

Yn ymgynghori ar	Ddim yn ymgynghori ar
Gosodiad y tyrbinau	Yr angen am ynni adnewyddadwy
Lleoliad seilwaith arall	Addasrwydd Ardal Chwilio Strategol Co edwig Brechfa ar gyfer datblygu ffermydd gwynt
Yr arolygon a gynhaliwyd	Y cysylltiad â'r grid (Bydd angen gwneud cais arall ar gyfer hyn)
Camau lliniaru arfaethedig	

Sut yr ydym yn ymgynghori?

Byddwn yn ymgynghori'n lleol fel y disgrifir yn ein SoCC sydd i'w weld ar ein gwefan –

www.npower-renewables.com/brechfaforest

Trwy gydol y cyfnod ymgynghori, bydd y defnyddiau ymgynghori i gyd ar gael mewn nifer o ganolfannau lleol. Yn ogystal, bydd arddangosfeydd mewn canolfannau ger Coedwig Brechfa.

ydd y rhain yn gyfle i bobl leol gael gwybod mwy am y cynlluniau i ddatblygu fferm wynt newydd yng Ngorllewin Coedwig Brechfa ac i roi eu barn yn ffurfiol.

Bydd defnyddiau ymgynghori ar gael ar ein gwefan hefyd – www.npower-renewables.com/brechfaforest ac mae copïau o'r crynodeb annhechnegol ar gael am ddim os gofynnwch amdanynt. Os hoffech brynu copi o'r Datganiad Amgylcheddol, mae copïau ar DVD ar gael am £10 a chopïau papur am £250.

Mannau lle bydd y dogfennau ar gael:

Swyddfa Cynllunio Caerfyrddin
(9yb hyd at 5yh) Gwasanaethau Cynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin, 40 Heol Spilman Caerfyrddin, SA31 1LQ

Llyfrgell Caerfyrddin
(Dydd Llun – Dydd Mercher a dydd Gwener: 9.30am i 7pm, Iau a dydd Sadwrn: 9.30am – 5pm) Heol San Pedr, Caerfyrddin, SA31 1LN

Swyddfa Cynllunio Llandeilo
(9am – 5pm) Llandeilo Gwasanaethau Cynllunio Swyddfeydd Dinesig, SA19 6HW

Bryn Stores
(Dydd Llun a Iau 9am – 1pm, dydd Mawrth a dydd Sadwrn 9am – 12 hanner dydd) Brechfa, Caerfyrddin, Dyfed, SA32 7QY

Arddangosfeydd Cyhoeddus

Dydd Gwener 18 Chwefror 2011
2pm – 8pm
Neuadd yr Eglwys, Brechfa
Sant Teilo, Brechfa
Sir Gaerfyrddin, SA32 7BL

Dydd Sadwrn 26 Chwefror 2011
10am – 3pm
Ysgol Gymunedol Llanybydder
Llanybydder, Sir Gaerfyrddin
SA40 9RP

Dydd Llun 28 Chwefror 2011
2pm to 8pm
Neuadd Gymunedol Eglwys Llanllwni
Llanllwni, Pencader
Sir Gaerfyrddin, SA39 9DR

Dydd Iau 10 Mawrth 2011
2pm to 8pm
Neuadd Goffa Llanpumsaint
Heol Y Neuadd, Llanpumsaint
Sir Gaerfyrddin, SA33 6BZ

Dydd Sadwrn 19 Mawrth 2011
12pm to 5pm
Neuadd Gymunedol Eglwys Llanllwni
Llanllwni, Pencader
Sir Gaerfyrddin, SA39 9DR

Dydd Sadwrn 26 Mawrth 2011
12pm – 5pm
Neuadd yr Eglwys, Brechfa
Sant Teilo, Brechfa
Sir Gaerfyrddin, SA32 7BL

Y Ganolfan Gymunedol Hen Ysgol
(9am – 4pm) Heol Llansawel, Llanybydder Sir Gaerfyrddin, SA40 9RN

Gwyddgrug Swyddfa'r Post
(Dydd Llun – Sadwrn 7.30am – 8pm, Dydd Sul 9.30am – 8pm) Gwyddgrug Sir Gaerfyrddin, SA39 9AX

Swyddfa Bost a Siop Pencader Albion
(Dydd Llun – Sadwrn 6.30am – 8pm, Dydd Sul 7am – 7pm) Stores Albion Pencader, Sir Gaerfyrddin SA39 9ES

Llyfrgell Llandeilo
(Dydd Mawrth a Dydd Gwener 10am – 12 canol dydd, 1.30pm – 4.30pm, 5pm – 7pm; 13:30 Dydd Mercher – 5.30pm; Dydd Sadwrn 10am – 12 canol dydd) Heol Cilgant, Llandeilo SA19 6HN

Sut i ymateb i'r ymgynghoriad

Mae RWE npower renewables yn awyddus i bobl ymateb mewn ysgrifen. Gellir cyflwyno sylwadau trwy lenwi ffurflen ymateb sy'n cynnwys nifer o gwestiynau. Gallwn anfon copi o'r ffurflen atoch, mae ar gael ar ein gwefan neu gallwch gymryd copi mewn arddangosfa. Fel arall, cewch ysgrifennu atom neu anfon neges e-bost â'ch ymateb i'r cynlluniau. Gofynnwn i chi roi eich manylion cysylltu ar eich ymateb, yn cynnwys enw a chyfeiriad ar gyfer anfon gohebiaeth am yr ymgynghoriad.

Bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir yn ystod yr ymgynghoriad hwn yn ymddangos yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad i'r IPC, yn cynnwys enwau a chyfeiriadau.

Mae'n rhaid derbyn ymatebion i'r Ymgynghoriad erbyn 5pm ar 6 Ebrill.

Cysylltu â ni
Brechfa Forest West Consultation,
RWE npower renewables Uned 22
Technium, Central Avenue
Baglan Energy Park
Port Talbot, SA12 7AX

E-bost: brechfaforest@rwe.com
Rhif ffôn (er gwybodaeth yn unig):
01639 816180
Gwefan: www.npower-renewables.com/brechfaforest

Manylion y prosiect

Dyma brif elfennau'r cynllun:
- Gosod 28 tyrbin gwynt (pob un yn mesur dim mwy na 145 metr i flaen y llafn)
- Adeiladu tua 9.1km o lonydd mynediad newydd ar y safle ac uwchraddio 12.7km o'r lonydd mynediad sydd yno eisoes
- Adeiladu is-orsaf ar y safle, darnau o lawr caled, trawsnewidyddion allanol, ceblau tanddaearol ac un mast parhaol i fonitro'r gwyn
- Creu dwy iard adeiladu dros dro;
- Cloddio un pwll benthyg newydd i dynnu cerrig i'w defnyddio mewn rhannau eraill o'r safle
- Bydd cyfnod o gwympo coed cyn y gwaith adeiladu.

Gallai Fferm Wynt Gorllewin Coedwig Brechfa gynhyrchu rhwng 56 ac 84 megawat (MW). Byddai disgwyl i'r safle gynhyrchu digon o drydan mewn blwyddyn ar gyfartaledd i gyflenwi anghenion domestig hyd at 39,700 o gartrefi cyffredin. Wrth gyfrif nifer y cartrefi y gellid eu cyflenwi, cymerir bod pob cartref yn defnyddio 4,700 kWh o drydan y flwyddyn. Mae'r ffigwr hwn yn cyfateb i'r data diweddar am swm y trydan a ddefnyddir mewn cartrefi yn y Digest of UK Energy Statistics ac amcangyfrifon ac amcanestyniadau gan Awdurdod Ystadegau'r DU.

Os ceir caniatâd cynllunio gan yr IPC, mae'n debygol y gwneir y gwaith adeiladu dros gyfnod o 22 mis. Amcangyfrifir y bydd hyd at 150 o bobl yn gweithio'n uniongyrchol ar y cynllun hwn ar y safle yn ystod y cyfnod adeiladu o 22 mis.



Gorllewin Coedwig Brechfa – Gosodiad Y Safle

Bydd gan y fferm wynt oes weithredol o 25 mlynedd. Ar ddiwedd y cyfnod hwn, caiff y tyrbinau eu tynnu i lawr a'u symud o'r safle os na wneir cais am ganiatâd cynllunio pellach.

Cyngor yn cofrestru cais cynllunio ar gyfer Fferm Wynt Dwyrain Coedwig Brechfa

Cyflwyno cynlluniau ar gyfer fferm wynt a allai gyflenwi 15,700 o gartrefi

Mae gan RWE npower renewables gynlluniau ar gyfer fferm wynt arall yng Nghoedwig Brechfa – Dwyrain Coedwig Brechfa.

Mae RWE npower renewables wedi cyflwyno cais cynllunio yn ddiweddar i Gyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer Fferm Wynt Dwyrain Coedwig Brechfa, i'r De o Rydcymerau.

Bydd 12 tyrbin yn Fferm Wynt Dwyrain Coedwig Brechfa a gallai gynhyrchu rhwng 24 a 36MW. Pan fydd yn gweithio'n llawn, gallai gynhyrchu digon o ynni i ddiwallu anghenion hyd at 15,700 o gartrefi cyffredin (1).

Cyn cyflwyno'r cais, cynhaliwyd rhaglen o weithgareddau i roi gwybod i'r cyhoedd am y cynllun, gyda nifer o arddangosfeydd cyhoeddus mewn canolfannau lleol. Yn ogystal, sefydlodd RWE npower renewables Grŵp Cyswllt Cymunedol, gyda nifer o gynrychiolwyr o grwpiau lleol y mae a wnelont â dau gynllun RWE npower renewables ar gyfer Coedwig Brechfa.

Meddai Jenny Prothero, Datblygwr Cynlluniau Ynni Adnewyddadwy gydag RWE npower renewables: "Cafodd ein cynlluniau ar gyfer Fferm Wynt Dwyrain Coedwig Brechfa eu datblygu mewn ymgynghoriad â Chyngor Sir Caerfyrddin a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Gallai'r fferm wynt wneud cyfraniad pwysig at dargedau ynni adnewyddadwy Cymru yn ogystal â chreu hyd at gant o swyddi yn y cyfnod adeiladu."

Mae Fferm Wynt Dwyrain Coedwig Brechfa yn bodloni canllawiau cynllunio Llywodraeth Cynulliad Cymru, Nodyn Cyngor Technegol 8 (TAN 8) sy'n nodi bod Coedwig Brechfa'n lle addas i ddatblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy mawr.

Fel rhan o'r cais, mae RWE npower renewables wedi cyflwyno Datganiad Amgylcheddol (DA) manwl. Mae hwn yn dwyn ynghyd ganfyddiadau Asesiad eang o'r Effaith Amgylcheddol (AEA) o dan arweiniad yr ymgynghorwyr amgylcheddol Land Use Consultants (LUC).

Yn awr, bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynnal ei ymgynghoriad ei hunan ar y cais cyn i'r Pwyllgor Cynllunio ei ystyried a bydd yn cyhoeddi lle y gellir gweld dogfennau'r cais. Dylid cyflwyno unrhyw sylwadau mewn ysgrifen, gan nodi cyfeirnod y cais (E/24195), i'r Pennaeth Cynllunio, Gwasanaethau Cynllunio, Cyngor Sir Caerfyrddin, 40 Heol Spilman. Caerfyrddin, SA31 1LE neu trwy e-bostio cynllunio@sirgar.gov.uk. Mae gwybodaeth am y cais i'w gweld yn: http://www.carmarthenshire.gov.uk/english/environment/planning/applications/pages/viewapplicationsonline.aspx

Troednodiadau:
[1]Wrth gyfrif nifer y cartrefi y gellid eu cyflenwi, cymerir bod pob cartref yn defnyddio 4700kWh o drydan y flwyddyn. Mae'r ffigwr hwn yn cyfateb i'r data diweddar am swm y trydan a ddefnyddir mewn cartrefi yn y Digest of UK Energy Statistics ac amcangyfrifon ac amcanestyniadau gan Awdurdod Ystadegau'r DU.

Argraffwyd y llyfryn hwn ar bapur sydd wedi'i wneud o fwydion sydd wedi eu hardystio gan yr FSC ac fe'i hargraffwyd gan ddefnyddio inc llysiau.

Os hoffech gael y cylchlythyr hwn mewn print bras mae croeso i chi gysylltu â ni: 01738 825132

Cysylltu â ni

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y cynigion bydd aelodau'r tîm prosiect yn fwy na pharod i gyfarfod â chi yn yr arddangosfeydd cyhoeddus. Fodd bynnag, os na allwch ddod, mae croeso i chi gysylltu â'r tîm.

E-bost
brechfaforest@rwe.com
Ffôn
01639 816180
Y We
Mae ein gwefan yn cael ei diweddaru'n rheolaidd: *www.npower-renewables.com/brechfaforest*

Recycled
100%
FSC
POSITIONAL
www.fsc.org Cert no. SGS-COC-0620
© 1996 Forest Stewardship Council

Post
RWE npower renewables Coedwig Brechfa, Uned 22, Technium: Technolegau Cynaliadwy, Rhodfa Ganol, Parc Ynni Baglan, Port Talbot, De Cymru, SA12 7AX